



Bwletin Awdurdod S4C

Cyfarfod 348 – 15 Medi

S4C, Caerdydd

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 15 Medi 2011.

1. Materion yn codi o gofnodion cyfarfod 347

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 347.

2. Adroddiad y Cadeirydd

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad.

3. Adroddiad y Prif Weithredwr

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei adroddiad.

Adroddiad Ail-strwythuro - Cyflwynodd bapurau oedd yn cyplysu'r gwaith a ddechreuodd ym mis Medi 2010, pan dorrwyd cyllideb S4C, â gwaith yr Adolygiad Cynhwysfawr sy'n cynnwys:

- Gweledigaeth 2012 +;
- Adroddiad Arshad Rasul ar y Broses Gomisiynu;
- Adroddiad Richie Turner ar Arloesi ac Effeithiolrwydd.

Sefydlwyd dau bwyllgor mewnol i ymdrin ag argymhellion y ddau olaf. Cafwyd hefyd argymhellion i'r Awdurdod o ran ail strwythuro o lefel y Tîm Rheoli i lawr. Awgrymwyd bod hyn yn cael ei roi naill ochr nes bydd penderfyniad o ran penodiad y Prif Weithredwr newydd.

Adroddiad ar Ystâd S4C - cyflwynodd AEO bapur yn dilyn arolwg gan gwmni allanol ar ystâd S4C. Gofynnodd i'r Awdurdod nodi'r cynnwys am y tro. Awgrymwyd bod y swyddogion yn cynnig argymhellion i gyfarfod nesaf y Bwrdd Masnachol ym mis Hydref. Cytunodd yr Awdurdod.

Teledu Lleol

Roedd S4C wedi datgan diddordeb yn y cynnig gwreiddiol. Cytunodd yr Awdurdod fod y swyddogion yn cyflwyno ymateb erbyn 23 Medi, sef dyddiad cau'r ymgynghoriad.

DCMS/BBC/S4C

Roedd drafft o'r ddogfen "Joint Posisiton on S4C Future Governance and Accountability" ym mhapurau'r Awdurdod. Roedd S4C ac Ymddiriedolaeth y BBC wedi cyflwyno eu sylwadau ar y ddogfen i'r DCMS. Cafwyd trafodaeth ar y pwyntiau lle nad oes cytundeb eto. Rhoddodd yr Ysgrifennydd ddiweddariad ar y trafodaethau ar y Mesur Cyrff Cyhoeddus yn y Senedd. Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am eu gwaith wrth negydu.

4. Adroddiad o gyfarfod y Fforwm Cyfryngau Newydd

Cyflwynodd DJ adroddiad ar lafar yn rhoi diweddariad ar adroddiad y Fforwm Cyfryngau Newydd ar ddyfodol digidol S4C. Fe fydd yn cylchredeg y copi terfynol o'r Adroddiad er mwyn cael trafodaeth lawn yng nghyfarfod mis Hydref.

5. Cyflwyniad Calon Cenedl

Ymunodd JFR ac AWP i roi cyflwyniad ar ymgyrch Calon Cenedl. Dangoswyd esiamplau o'r ymgyrchoedd ym Mhontrhydfendigaid, Llŷn ac Eifionydd ac Ynys Môn a'r meddylfryd sydd tu cefn iddynt wrth ystyried sut i dargedu cynulleidfa benodol. Yn ogystal dangoswyd ymgyrchoedd yn ymwneud â Chwpan Rygbi'r Byd, a hysbysebion teledu ar gyfer dysgwyr - "No Speaky? Dim Problem". Roedd Calon Cenedl i ymweld â Blaenau Gwent rhwng 26 Medi a 12 Hydref.

6. Adroddiad y Cyfarwyddwr Comisiynu

Cyflwynodd GR ei adroddiad ysgrifenedig gan gynnwys yr isod.

- Roedd cystadleuaeth Cwpan Rygbi'r Byd wedi cychwyn yn Seland Newydd ac mae S4C yn rhoi sylw i gemau Cymru yn y gystadleuaeth. Mae S4C yn darlledu'r gemau Pro 12 a Chwpan LV ar yr un adeg. Nid yw S4C wedi derbyn unrhyw gwyn eto ynglŷn â gormod o rygbi o fewn yr amserlen.
- Darlledwyd rhaglenni teyrnged i Stewart Jones yn ddiweddar. Bwriedir darlledu rhaglen deyrnged i Huw Ceredig ar ddiwedd y flwyddyn.
- Roedd yr ymateb i'r gyfres Cariad@Iaith yn dda. Nododd fod y gyfres wedi ateb sawl gofyn sef, hybu'r iaith Gymraeg, denu sêr i gyfrannu at rhaglenni ac ennyn diddordeb yn y wasg a'r cyfryngau aml blatfform.

7. Y Broses Gomisiynu

Rhoddodd GR ddiweddariad ar y rownd gyntaf o'r broses gomisiynu am yr oriau rhydd ar gyfer 2012 a thu hwnt. Roedd y tîm comisiynu wedi derbyn bron i 1,000 o gynigion. Cyflwynwyd system sgorio ar gyfer pob syniad fesul genre. Disgwylir cadarnhau'r rhestr fer yn gynnar ym mis Hydref. Bydd adborth uniongyrchol i gynhyrchwyr ar gyfer pob syniad aflwyddiannus. Bydd yr ail ffenestr gomisiynu yn agor ar yr 28 Hydref ac ar ben hyn mae'r broses tendro yn mynd rhagddo ar gyfer y rhaglenni cylchgrawn a sioe Nos Wener. Cynhelir sesiynau briffio ar yr anghenion cynnwys yn y Gogledd ar 26 Hydref ac yn y De ar 27 Hydref. Diolchodd HJ ar ran yr Awdurdod i GR a'r Tîm Comisiynu am eu gwaith.

8. Materion Eraill

Yn ogystal, trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad Ymchwil
- Adroddiad Gwifren
- Adroddiad Cyllid
- Adroddiad ac Argymhellion y Bwrdd Masnachol